Hawdd ei Deall

North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Seamless services for people with Learning Disabilities
Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

# Bywyd ar ôl ysgol

## Adroddiad am rai'n gadael ysgol gydag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru

'Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gogledd Cymru Gyda'n gilydd, Rhaglen Drawsnewid Anabledd Dysgu**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Bywyd ar ôl Ysgol**.'

**Mai 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 18**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, Rhaglen Drawsnewid Anabledd Dysgu.** Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:**
https://gogleddcymrugydangilydd.org/
**E-bost:**
learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk
**Ffôn:** 01352 701303

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Cyflwyniad ........................................................................ 4

Beth rydyn ni wedi ei wneud ............................................... 6

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ....................................... 8

Beth rydyn ni eisiau ei weld yn digwydd ............................ 14

**Pethau i'w gwneud yn y flwyddyn nesaf ......................... 14**

**Pethau i'w gwneud yn y 2 i 3 blynedd nesaf……………15**

**Pethau i'w gwneud yn y 5 mlynedd nesaf ....................... 17**

Geiriau Anodd ................................................................... 18

# Cyflwyniad

Ni ydy **Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, Rhaglen Drawsnewid Anabledd Dysgu.**



Rydyn ni eisiau i bobl gydag anabledd dysgu gael yr un cyfleoedd â phawb arall.



Yn enwedig ar ôl iddyn nhw adael ysgol.




Mae yna ddeddf newydd o'r enw **Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018.** Fe fyddwn ni yn ei galw yn **Ddeddf** yn fyr.




Mae gan y **Ddeddf** reolau am helpu pobl gydag anabledd dysgu ar ôl iddyn nhw adael ysgol.



Roedden ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni yn dilyn y **Ddeddf** newydd yma.




Roedd angen inni edrych i weld bod y rhai sydd yn gadael ysgol gydag anabledd dysgu yn cael digon o ddewisiadau a chefnogaeth.




Er enghraifft, er mwyn iddyn nhw allu mynd i'r coleg. Neu cael swydd.



Fe wnaethon ni siarad gyda llawer o bobl am hyn.




Mae'r adroddiad yma yn dweud beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud





Fe wnaethon ni y prosiect yma rhwng 2020 a 2021.



Roedd y prosiect yn cael ei redeg gan bobl o gynghorau lleol, **Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd** a **Cyswllt Conwy.**



Mae **Cyswllt Conwy** yn helpu pobl gydag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru.



Fe wnaethon ni gasglu llawer o wybodaeth am beth roedd pobl yn ei wneud ar ôl iddyn nhw adael ysgol neu goleg.



Fe wnaethon ni gael gwybodaeth gan ysgolion, colegau, **Gyrfaoedd Cymru**, cynghorau, iechyd a'r **trydydd sector**.

Fe wnaethon ni gael gwybodaeth hefyd gan bobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Enw arall ydy **trydydd sector** ar gyrff gwirfoddol, elusennol neu ymgyrchu .



Fe wnaethon ni siarad gydag 86 o bobl i gyd.



Roedd gan 26 o'r bobl y gwnaethon ni siarad gyda nhw anabledd dysgu.



Roedd 6 o'r bobl y gwnaethon ni siarad gyda nhw yn rieni i rhywun gydag anabledd dysgu.



Roedd pawb arall y gwnaethon ni siarad gyda nhw yn ddarparwyr gwasanaethau. Fel staff ysgolion, colegau, iechyd a gofal cymdeithasol, y **trydydd sector** a **Gyrfaoedd Cymru.**

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

**Beth wnaethon ni ei ddarganfod gan Gyrfaoedd Cymru:**



Mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anghenion addysgol arbennig ac anabledd dysgu:

- Yn aros yn yr ysgol tan blwyddyn 14.
  **neu**
- Yn mynd i'r coleg ym mlwyddyn 11 neu blwyddyn 13.




Mae'r rhan fwyaf o bobl o ysgolion uwchradd arbennig yn mynd i'r coleg.



Mae ychydig o bobl yn mynd i'r coleg gyda chymorth arbenigol. Er mwyn iddyn nhw gael rhagor o help gyda'u hanabledd dysgu.




Wnaethon ni ddim clywed am unrhyw un oedd wedi mynd i waith. Os nad oedd yn brofiad gwaith.

**Beth wnaethon ni ei ddarganfod gan gynghorau lleol:**



Ar ôl iddyn nhw adael ysgol mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwneud gweithgareddau dydd.



Neu mae nhw'n cael cyfleoedd gwaith. Mae'r cyngor yn talu am y gwasanaeth yma.



Mae rhai pobl yn gwneud gwaith gwirfoddol. Mae hyn yn waith rydych chi'n ei wneud heb gael eich talu amdano.



Does dim llawer o bobl gydag anabledd dysgu mewn gwaith gyda thâl.



Does dim digon o gyfleoedd i bobl gydag anabledd dysgu dwys.

**Am yr wybodaeth rydyn ni wedi ei gael:**



Roedd gwahanol wasanaethau yn dangos eu gwybodaeth inni mewn gwahanol ffyrdd.



Mae hyn yn gwneud gwybodaeth yn ddryslyd.



Dydy'r rhan fwyaf o wasanaethau ddim yn gwybod beth mae pobl gydag anableddau dysgu yn ei wneud ar ôl ysgol neu goleg.



Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i wybod beth sydd yn digwydd i'r rhai sydd yn gadael ysgol gydag anabledd dysgu.



Ond rydyn ni **yn** gwybod bod gan y rhai sydd yn gadael ysgol gydag anabledd dysgu lai o ddewisiadau. Ac mae nhw'n cael llai o gefnogaeth.

**Am fynd i'r coleg:**



Yn aml mae pobl gydag anabledd dysgu yn mynd i'r coleg i wneud cyrsiau byr.



Ond dydy rhai pobl ifanc sydd yn gadael ysgol ddim eisiau mynd i'r coleg.



Mae'r rhai sydd yn gadael ysgol gydag anabledd dysgu yn teimlo eu bod nhw angen rhagor o gyngor am eu dewisiadau




Er enghraifft, efallai eu bod nhw angen help i gael swydd yn lle mynd i'r coleg.



Neu efallai eu bod nhw angen help i fod yn fwy **annibynnol** A byw ar eu pen eu hunain.

**Annibynnol** ydy gwneud pethau i chi'ch hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.



Mae gan lawer o golegau ddosbarthiadau ar wahân i bobl gydag anabledd dysgu.



Dydy hyn ddim yn **gynhwysol**.

Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.



Fe wnaeth pobl a theuluoedd ddweud wrthyn ni eu bod nhw eisiau rhagor o ddewisiadau **cynhwysol** yn y coleg.



Mae astudiaethau yn dangos bod pobl ifanc gydag anabledd dysgu yn cael bywyd gwell pan maen nhw'n mynd i'r coleg gyda myfyrwyr eraill.



Weithiau y dewis gorau ydy i bobl fynd i'r coleg  gyda chymorth arbenigol.




Ond mae'r Ddeddf yn dweud y dylai pobl gydag anabledd dysgu allu mynd i'w coleg lleol. Ac fe ddylai colegau allu ateb anghenion pobl.

## Am y Ddeddf newydd




Mae gan y **Ddeddf** reolau am helpu pobl gydag anabledd dysgu ar ôl iddyn nhw orffen ysgol. Ac yn cynllunio’r camau nesaf.



Ond dydy’r rhan fwyaf o bobl ddim yn gwybod llawer am y **Ddeddf** newydd.



A sut y mae’r **Ddeddf** yn gallu helpu’r rhai sydd yn gadael ysgol gydag anabledd dysgu.




Mae pobl sydd yn gwybod am y **Ddeddf** yn meddwl ei bod yn dda. Ac y bydd yn helpu pobl gydag anabledd dysgu.



Ond mae rhai pobl yn poeni y bydd hi’n anodd i wneud iddi weithio yn dda.

# Beth rydyn ni eisiau ei weld yn digwydd



Mae gennym ni restr o bethau rydyn ni eisiau i wasanaethau cefnogi eu gwneud nesaf.

## Pethau i'w gwneud yn y flwyddyn nesaf



Fe ddylai gwasanaethau wneud yn siŵr bod staff yn barod am y **Ddeddf** newydd.Ac yn gwybod popeth amdani



Fe ddylai gwasanaethau wneud yn siŵr bod pobl gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn gwybod am y **Ddeddf** newydd.




Fe ddylai cynghorau wneud trafnidiaeth cyhoeddus yn fwy hawdd i'w ddefnyddio. Fel bod pobl gydag anabledd dysgu yn gallu bod yn fwy **annibynnol**



Fe ddylai gwasanaethau edrych ar sut mae technoleg yn gallu helpu pobl ifanc i fod yn fwy **annibynnol.** A diogel.

## Pethau i'w gwneud yn y 2 i 3 blynedd nesaf



Fe ddylai colegau wneud rhagor i bobl gydag anabledd dysgu dwys. Er mwyn iddyn nhw gael rhagor o ddewisiadau pan maen nhw'n gadael ysgol.



Fe ddylai gwasanaethau greu grwpiau cefnogi i rai sydd yn gadael ysgol. Er mwyn iddyn nhw gael gwell cyngor am beth i'w wneud nesaf.



Fe ddylai gwasanaethau roi gwell cyngor am golegau lleol ac arbenigol. Fel bod pobl yn gwybod pa goleg sydd yn well iddyn nhw.



Fe ddylai gwasanaethau helpu'r rhai sydd yn gadael ysgol i wneud cynllun gyrfa. A dysgu rhagor am wahanol ddewisiadau swyddi.



Fe ddylai gwasanaethau wneud yn siŵr bod gwybodaeth yn hawdd i bobl ei ddefnyddio. Er enghraifft, ar wefannau



Fe ddylai gwasanaethau helpu i greu rhagor o swyddi i bobl gydag anabledd dysgu.



Fe ddylai gwasanaethau helpu rhai sydd yn gadael ysgol i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. A meddwl am ba fath o fywyd mae nhw eisiau.



Fe ddylai gwasanaethau gadw gwell gwybodaeth am beth mae pobl ifanc yn ei wneud ar ôl iddyn nhw adael ysgol neu goleg.



Fe ddylai gwasanaethau helpu pobl gydag anabledd dysgu i wneud ffrindiau newydd.

## Pethau i’w gwneud yn y 5 mlynedd nesaf



Fe ddylai’r holl addysg yng Ngogledd Cymru fod yn fwy **cynhwysol** i blant gydag anabledd.



Fel bod pobl gydag anabledd dysgu yn gallu astudio i ddysgu ochr yn ochr gyda myfyrwyr eraill.



Fe ddylai’r holl staff gael eu hyfforddi ar sut i fod yn fwy **cynhwysol.**



Fe ddylai gwasanaethau helpu rhai sydd yn gadael ysgol i gynllunio beth mae nhw eisiau ei wneud nesaf.




Fe fydd hyn hefyd yn helpu gwasanaethau i gynllunio beth mae nhw ei angen yn y dyfodol.

# Geiriau Anodd

## Annibynnol

Mae bod yn annibynnol yn meddwl gwneud pethau eich hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.

## Trydydd sector

Enw arall ydy trydydd sector ar gyrff gwirfoddol, elusennol neu ymgyrchu.